1907-2007

Estyn

Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Datganiad newyddion

21 Tachwedd 2007

Cyfle i chi gael dweud eich dweud wrth i Estyn gynnal ymgynghoriad

Mae Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, yn cynnal rhaglen ymgynghori gyhoeddus, sy'n rhoi cyfle i bobl gael dweud eu dweud ar ddyfodol arolygu.

Mae'r ymgynghoriad yn cynnwys holiadur sydd yn awr ar gael ar wefan Estyn www.estyn.gov.uk

Mae barn gan ddysgwyr, grwpiau cymunedol ac unigolion sydd â diddordeb yn cael eu casglu fel rhan gyntaf o adolygiad strategol i'r modd y bydd Estyn yn arolygu gwasanaethau addysg a hyfforddiant o 2010.

"Mae arnon ni eisiau i'n hadolygiad gael ei lywio gan ystod mor eang â phosibl o brofiadau ac arbenigedd ac rydyn ni'n gobeithio y bydd y syniadau hyn yn datblygu'r ffocws hwnnw ar wella gwasanaethau addysg a hyfforddiant ledled Cymru," meddai Susan Lewis, Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

Mae trawstoriad o bobl ledled Cymru yn cael eu holi pa fath o wasanaeth arolygu y dylai Estyn ei ddarparu. Er enghraifft, bydd Estyn yn darganfod yr hyn sydd ei eisiau gan grwpiau gwahanol o arolygu, pa mor aml y dylid cynnal arolygiadau yn eu barn nhw a pha fath o adroddiadau fyddai'r rhai hawsaf i'w defnyddio yn eu barn nhw.

Yn ogystal ag ymgynghori â phobl eraill, bydd Estyn yn edrych ar y datblygiadau diweddaraf mewn strategaeth arolygu a rheoleiddio cyn penderfynu sut i ymdrin â'r broses yn y dyfodol. Bydd cylchoedd arolygu cyfredol Estyn yn dod i ben erbyn 2010.

DIWEDD

Nodiadau i Olygyddion:

- Mae Estyn, swyddfa Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, yn arolygu ysgolion a lleoliadau meithrin a gynhelir neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol, ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd, ysgolion arbennig, unedau cyfeirio disgyblion, ysgolion annibynnol, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau cymorth ieuenctid, hyfforddiant gwaith ieuenctid a chymuned, awdurdodau addysg lleol (AALlau), addysg a hyfforddiant athrawon, dysgu yn y gwaith, cwmnïau gyrfaoedd, dysgu troseddwyr, ac elfennau addysg, arweiniad a hyfforddiant y rhaglenni hyfforddi a ariennir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:
Claire Russell
Y Tîm Cyfathrebu, y Cyfryngau a Marchnata
Estyn
cyfathrebu@estyn.gsi.gov.uk
02920 446464